# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 14eg Tachwedd, 2022**, yng Nghanolfan Bryncroes, o 7.30 p.m. hyd 8.10 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Glyn Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Siôn Williams (Is-Gadeirydd)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Gwenan Griffiths, Efan Thomas, Carys E. Williams, Iwan J. Williams, Glenys Williams

Ymddiheuriad: Y Cynghorwyr Dylan Parry Jones, Michael Strain
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

60. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

61. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

62. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 10fed HYDREF, 2022**

**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 10fed Hydref, 2022. (Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eilwyd gan Y Cynghorydd Elin Hughes gyda phawb yn cytuno).

**Materion yn codi**

**(A)Eitem 56 – Cadarnhau Cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 26ain Medi, 2022**
**Eitem 51 – Awdurdod i dalu**

**Adroddod** Y Clarc iddi dderbyn gwybodaeth gan Swyddfa'r HMRC ym Mhorthmadog eu bod yn diddymu'r gosb o £100 ar ôl derbyn gwybodaeth ganddi.

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.

**Eitem 58 – Materion Ffyrdd a Llwybrau**

**Adroddodd** y Clarc iddi dderbyn gwybodaeth gan Y Cynghorydd Gareth Williams, Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd, iddo gael ar ddeall gan y Swyddog perthnasol yng Nghyngor Gwynedd fod problem tanddaearol ar Allt Mellteyrn, Sarn ac fod angen tyllu'r ffordd i'w adnewyddu ac mai dyma oedd y broblem nad yw'r goleuadau stryd yn gweithio. Cafwyd ar ddeall y byddai'r gwaith yn cael ei wneud yn weddol fuan.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

63. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Cyflwynwyd** cais C22/0955/32/DT sef cais ar gyfer codi estyniad unllawr blaen ac ochr yn Nhyn y Coed, Sarn Mellteyrn.

**Penderfynwyd** cefnogi'r cais.

**Nodwyd** fod Y Cynghorydd Gareth Williams, Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd, eisoes wedi anfon ei gefnogeth at yr Adran Gynllunio.

64. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

**Tynnwyd** sylw gan Y Cynghorydd Gareth Williams, Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd, at

**a)** ddamwain ddigwyddodd ger Groeslon Siop Lwyd, Bryncroes, y Sadwrn blaenorol, ac 'roedd eisoes wedi tynnu sylw Iwan ap Trefor, Rheolwr Traffig a Phrojectau

Cyngor Gwynedd, gan ofyn iddo ystyried symud yr arwydd cyflymder o'i leoliad presennol ger Pant-y-Gwril i Groeslon Siop Lwyd.

**Penderfynwyd** cefnogi sylwadau'r Cynghorydd Gareth Williams a phwyso am gael symud yr arwydd.

**Penderfynwyd** ymhellach ofyn am gael newid y cyflymder o 40mya i 30mya o lle mae'r arwydd ar hyn o bryd, sef ger Pant-y-Gwril, hyd Y Fantol, gan dynnu sylw at y perygl sy'n bodoli ym Mhenygroeslon gyda phlant yn trosglwyddo o un bws i'r llall yma yn bore a'r prynhawn; bws gwasanaeth cyhoeddus yn stopio yma i godi teithwyr; blwch postio ar y groeslon ac hefyd storfa Wynnstay ychydig lathenni o'r Groeslon (storfa sydd yn brysur iawn drwy'r dydd gyda thractorau a loriau mawrion yn llwytho a dadlwytho yno).

**b)** iddo dderbyn cŵyn ynglyn a'r ffordd heibio fferm Cellar, Botwnnog. 'Roedd wedi derbyn fideos a lluniau o ddŵr glaw yn llifo fel afon o'r caeau i'r ffordd ac yna i lawr heibio'r Capel a'r fferm am y bont, gan fethu sawl cwter (gulley) ar ei daith.

'Roedd eisoes wedi cysylltu â Swyddogion Priffyrdd Cyngor Gwynedd ac wedi derbyn addewid y byddant yn edrych ar y sefyllfa yn syth. Hefyd cafodd ar ddeall fod fod ail wynebu ffordd Cellar yn y deg uchaf ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2023 - nid oes cyllideb ar gael i edrych arni cyn hynny.

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

**c)** **Tynnodd** Y Cynghorydd Gwenan Griffith sylw iddi dderbyn cais am gael torri tyfiant yn Saithbont, Botwnnog a ger Bryn Ffynnon, Bryncroes.

**Yn dilyn gair â'r Cynghorydd Gareth Williams** anfonir y cais ymlaen i'r Adran Priffyrdd.

## 65. AWDURDOD I DALU

**Nid oedd unrhyw daliad yn ddyledus noson y Cyngor.**

## 66. CYRSIAU UN LLAIS CYMRU

**Cyflwynwyd** rhestr o gyrsiau a gynigir gan Un Llais Cymru yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr, 2022, a datganodd Y Cynghorydd Gwenan Griffiths y byddai diddordeb ganddi mewn mynychu cwrs 'Dealltwriaeth o'r Gyfraith.' Nodwyd fod bwrsari ar gael ar gyfer cyrsiau o'r fath.

**Penderfynwyd** cytuno i'r Cynghorydd Griffiths gael bod yn rhan o'r cwrs.

## 67. UN LLAIS CYMRU – CYFARFOD ARDAL ARFON/DWYFOR

**Adroddodd** Y Cynghorydd Carys H. Evans iddi gymryd rhan yng nghyfarfod 12fed Hydref, 2022 o gangen Ardal Arfon/Dwyfor Un Llais Cymru. Rhoddodd fraslun o'r hyn drafodwyd:

a) Rhoddwyd sgwrs gan Geraint Owen, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol Cyngor Gwynedd a soniodd "am yr argyfwng mewn Llywodraethiant yn y DU a sut y byddai hyn yn debygol o olygu toriad o £4bn yn y grant a roddir i Lywodraeth Cymru gan San Steffan a fyddai'n debygol o olygu £20m yn llai I Wynedd ei wario yn 2023-4."
b) Yr angen i bob Cyngor gael rhaglen hyfforddiant ar y wefan erbyn 5ed Tachwedd, 2022. 'Roedd gan Mel ab Owain, Un Llais Cymru, dimpled o'r cyfryw.
c) Yn dilyn nifer o gwynion ynglyn a'r archwiliad fod y Gangen am wahodd Mr. Deryck Evans o Archwilio Cymru i gyfarfod Ionawr.

**Penderfynwyd** diolch am yr adroddiad.

68. **CYFARFOD 'ARDAL NI'**

**Adroddodd** y Cadeirydd iddo ef, Y Cynghorwyr Carys Hughes Evans, Glenys Williams ynghyd a'r Y Cynghorydd Gareth Williams, Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd, fynychu cyfarfod yn Abersoch ar 17eg Hydref, 2022, sef Gweithdy Ardal Ni – Llŷn. Yn amgaeedig mae cofnodion o'r sgyrsiau dderbyniwyd gan y Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau – Atodiad 'A1'.

**Penderfynwyd** diolch i'r rhai fynychodd y gweithdy.

69. **GWASANAETH AMBIWLANS**

**Cyflwynwyd** gwybodaeth dderbyniwyd gan y Pwyllgor Gwasanaeth Ambiwlans ddiwrnod y cyfarfod:

"Roeddwn yn meddwl y gallai fod yn ddefnyddiol rhoi'r wybodaeth diweddaraf ichi am y sefyllfa yn ymwneud â'r cynnig gan y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS Cymru) mewn partneriaeth ag Elusen Ambiwlans Awyr Cymru i ddatblygu'r gwasanaeth.

Cafodd y cynnig cychwynnol ei ystyried gan Bwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys PGAB ar 8 o Dachwedd. Yn y cyfarfod gofynnodd yr Aelodau am fwy o graffu cyn cymryd camau pellach. Bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf a 6ed o Ragfyr 2022.

Rwy'n parhau i weithio gyda'r Cynghorau Iechyd Cymuned (CIC) yng Nghymru i fod yn glir ynghylch y gofynion ar gyfer y broses ymgysylltu y bydd angen eu dilyn ar ol cadarnhad gan aelodau y PGAB (EASC).

Byddaf yn darparu diweddariadau pellach maes o law.

Diolch yn fawr iawn am y sylwadau a'r ymholiadau pwysig yr ydym wedi'u derbyn ar ein gwefan. Os oes gennych ymholiadau neu awgrymiadau pellach defnyddiwch y ddolen ganlynol

Cymraeg: https://pgab.gig.cymru/gwasanaethau-a-gomisiynir/emrts-cymru/cdg/

Diolch yn fawr

Yr eiddoch yn gywir

*Stephen Harrhy*

Prif Gomisiyndd y Gwasanaethau Ambiwlans"

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth a rhoddwyd rhyddid i unrhyw aelod anfon awgrymiadau neu ymholiadau i'r wefan a nodir uchod os dymunant.

70. **NEWYDDION I LLANW LLYN**

**Penderfynwyd** gwneud ymholiadau a fyddai modd i'r Cyngor gael cynnwys crynodeb o'r materion drafodir ym mhapur misol 'Llanw Llŷn.